



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Cymru
Prif Weithredwr, Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol
Cadeirydd, Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân
Cadeirydd, Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Ymgynghorol
Cyngor y Diwydiant Adeiladu Cofrestr Arolygwyr Cymeradwy

21 Gorffennaf 2020

Annwyl Gyfaill

Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu'ch sylw at y ffaith bod fersiwn ddiwygiedig o "Building Regulations and Fire Safety Procedural Guidance" wedi cael ei chyhoeddi. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â sut y mae cyrff rheoli adeiladu'n ymgynghori â'r gwasanaethau tân ac achub ar gynlluniau ar gyfer gwaith adeiladu, ac maent yn ymdrin hefyd â'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth am ddiogelwch tân.

Mae'r canllawiau, sy'n cael eu cyhoeddi gan Reoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol (LABC) gyda'r Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC) a'r Gymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Ymgynghorol (ACAI) ar y cyd â Grŵp Cyd-reoleiddwyr y DU, i'w gweld ar wefan LABC yma:

<https://www.labc.co.uk/business/resources/building-regs-fire-safety-procedural-guidance>

Mae Erthygl 45 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ('y Gorchymyn Diogelwch Tân') a Rheoliad 12 o Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy) 2010 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi, yn eu tro, ofynion i'r perwyl bod yn rhai i awdurdodau lleol ac Arolygwyr Cymeradwy ymgynghori â'r awdurdod gorfodi, o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân, ar gynlluniau ar gyfer gwaith adeiladu.

Mae Rheoliad 38 o Reoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) yn pennu ei bod yn ofynnol i'r unigolyn sy'n gwneud y gwaith, drosglwyddo gwybodaeth am ddiogelwch tân i'r Person Cyfrifol o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân.

Mae'r canllawiau diwygiedig yn egluro'r camau gweithdrefnol y dylai cyrff rheoli adeiladu eu cymryd i ymgynghori'n effeithiol, ar sail y gofynion deddfwriaethol presennol, sydd heb newid.

Mae Gweinidogion Cymru yn argymhell y dylai cyrff rheoli adeiladu ddilyn y canllawiau hyn fel arfer da.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.